



Fframio'r dyfodol ar gyfer y genhedlaeth nesaf

Adroddiad Cenhedlaeth Nesaf NFU Cymru

CYFLWYNIAD Y LLYWYDD

Fel ceidwaid cefn gwlad, mae pob cenhedlaeth o ffermwyr yn dymuno gadael eu fferm mewn gwell sefyllfa i'r genhedlaeth nesaf. Mae Cymru yn gartref i sector ffermio ffrwythlon ac amrywiol a'r ieuencid yw ei chalon.

Er mwyn sicrhau bod safbwyntiau'r genhedlaeth nesaf yn cael eu clywed a'u hyrwyddo, wyth mlynedd yn ôl lansiwyd Rhaglen Cenhedlaeth Nesaf NFU Cymru ac mae gennym bellach ein trydedd garfan o aelodau. Mae'r egni a'r brwdfrydedd sydd wedi bodoli ym mhob grŵp wedi bod yn wirioneddol ysbrydoledig i bob un ohonom yn NFU Cymru. Maent yn frwd dros gynhyrchu bwyd byd-enwog sydd yn gyfeillgar i'r hinsawdd ar gyfer poblogaeth sy'n tyfu mewn amgylchedd a thirwedd sydd yn darparu cynefinoedd i'n natur ffynnu.

Mae ein cenhedlaeth nesaf o ffermwyr eisiau manteisio ar gyfleoedd i dyfu ein sector a'n cyfran ni o'r cynnyrch a ddefnyddir yma yng Nghymru a gan sectorau manwerthu a gwasanaethau bwyd y DU, gan ymestyn ein treiddiad i farchnadoedd tramor, a chynyddu'r

gyfran o fwyd o Gymru â gaffaelir gan ein hysgolion, ein ysbytai a'r sector gyhoeddus yn ehangach. Maent yn uchelgeisiol ar gyfer dyfodol bwyd a diod o Gymru.

Rwy'n canmol yr amser y mae Llywodraeth Cymru yn ei gymryd i ddatblygu ei pholisi ffermio ar gyfer y dyfodol, mae hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth ac mae'n rhaid i ni wneud yn iawn ar gyfer y rhai a fydd yn dilyn ôl ein traed. Mae'n hanfodol i dirwedd polisi'r dyfodol weithio dros y genhedlaeth nesaf o ffermwyr, ac mae hynny'n golygu bod yn rhaid iddo fod yn hygyrch ac yn gyraeddadwy i bawb, beth bynnag fo'r math o fferm, ei ddeiliadaeth, system neu leoliad.

Os yw ein polisi ffermio yn y dyfodol yn mynd i gyflawni ar gyfer ein cenhedlaeth nesaf o ffermwyr, a phobl Cymru, mae'n rhaid iddo gael ei danategu gan fframweithiau ariannol hirdymor. Rydym yn glir bod yn rhaid i'r gyllideb gyfateb â raddfa'r uchelgais. Mae ymrwymïadau blaenorol a wnaed gan lywodraethau yng Nghaerdydd

a San Steffan i gynnal cyllid ar gyfer ffermio yng Nghymru yn golygu ein bod yn disgwyl, fel lleiafswm, y tua £374 miliwn a ddarperir ar hyn o bryd drwy gynlluniau etifeddol y PAC fod ar gael yn flynyddol drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Ffermwyr yw calon ein cymunedau gwledig, ac mae sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o ffermwyr yn gweld dyfodol hyfyw yn ein diwydiant yn hollbwysig i warchod yr iaith, y diwylliant a'r dreftadaeth gyfoethog sydd gennym yma yng Nghymru.

Rwy'n parhau'n obeithiol, os bydd Llywodraeth Cymru a'r diwydiant yn cydweithio mewn partneriaeth wirioneddol, y gallwn ddylunio a gweithredu polisiau sy'n sicrhau y gall ffermio yng Nghymru ffynnu am genedlaethau i ddod. Un sy'n caniatáu i ffermwyr heddiw ac yfory barhau i ddarparu bwyd fforddiadwy, olrhinadwy, o ansawdd uchel, a manteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ehangach i holl bobl Cymru, tra'n cyflawni ein uchelgais dros amaeth sero net erbyn 2040.



EGWYDDORION ALLWEDDOL NFU CYMRU WRTH DDIWYGIO

Yn 2016, yn dilyn Refferendwm yr UE, lansiodd NFU Cymru yr ymgynghoriad mewnol mwyaf yn ein hanes gan sefydlu'r set ganlynol o egwyddorion allweddol i danategu polisi amaethyddol newydd. Yn gwbl hanfodol, cred NFU Cymru y dylai cymorth gael ei dargedu at ffermwr gweithredol, dylai gynnal cynhyrchiant bwyd o ansawdd uchel, a dylai gynnig cydnabyddiaeth deg am y buddion cyhoeddus mae ffermwyr yn eu darparu. Hefyd, mae'n rhaid i'r gyfundrefn reoleiddio sy'n cyd-fynd â hi fod yn gymesur, ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

CYD-DESTUN POLISI'AU'R DYFODOL

Mae hwn yn gyfnod colynnol i ffermio yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cymru (drwy'r Senedd) yn dod i ddarparu'r sylfaen o ddeddfwriaeth cynradd ar gyfer polisiâu amaethyddol y dyfodol, a gan wneud hyn yn diffinio ffermio ynf Nghymru am genhedlaeth neu fwy

Y llynedd cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion amlinellol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) – y cynllun fydd yn disodli Cynllun y Taliad Sylfaenol (CTS) a chynllun amaeth-amgylcheddol Glastir o 2025 ymlaen.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig tair haen benodol, pob un yn cefnogi ffermwyr i gyflawni canlyniadau RhTC ac yn gwobrwyo'r ffermwyr hynny sydd yn dewis gwneud mwy.

- **Camau Cyffredinol**

i'w cyflawni gan bob ffermwr sydd yn cymryd rhan yn y cynllun, a byddant yn derbyn taliad sylfaenol yn gyfnewid.

- **Camau Dewisol**

camau gweithredu mwy cymhleth, wedi'u targedu, yn ymwneud â nodweddion tir neu tirwedd penodol.

- **Camau Cydweithredol**

i'w cyflawni mewn modd cydlynol gan nifer o ffermwyr neu reolwyr tir ar raddfa tirwedd, dalgylch neu genedlaethol.

Mae NFU Cymru yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y CFfC yn gweithio ar gyfer pob math o fferm, gyda'r cynllun wedi'i gynllunio fel bod pob math o fferm yn gallu cael mynediad ato, gan gynnwys newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc.

SAFONAU GOFYNNOL CENEDLAETHOL

Ochr yn ochr â'r CFfC mae Llywodraeth Cymru yn cynnig dod â deddfwriaeth amaethyddol ynghyd mewn cyfres o Safonau Gofynnol Cenedlaethol, a fydd yn egluro ac yn cydgrynhoi rheoliadau amaethyddol yn un darn o ddeddfwriaeth. Cynigir mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol hyn fydd y 'porth' i gynllun y dyfodol, sydd yn golygu y bydd ffermwyr na allant gyrraedd y gwaelodlin reoleiddiol hon yn cael eu heithrio o gymorth.

Mae gosod y llawr rheoleiddiol newydd yn broses gymhleth ac mae'r modd y mae'n rhyngweithio gyda'r CFfC newydd yn rhywbeth y mae'n rhaid inni ei wneud yn iawn. Os yw newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc yn mynd i ffynnu, mae'n hanfodol bod y busnesau y maent yn eu rhedeg yn cael eu hategu gan amgylchedd rheoleiddiol sy'n galluogi.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad: Mae'n rhaid i'r CFfC gael ei ddylunio ar gyfer pob ffermwr, beth bynnag fo'i ddeiliadaeth tir. Dylai hwn fod yn gynnig blynyddol yn seiliedig ar gyflawni camau gweithredu wedi'u targedu at y ffermwr gweithredol a'i gefnogi. Mae'n rhaid i ffermwyr tenant allu ymuno â'r cynllun ar sail gyfartal â'u cymheiriaid sy'n berchen-feddianwyr, beth bynnag fo'u math o denantiaeth a hyd eu tenantiaeth.

ARGYMHELLIAD

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gdnabod pwysigrwydd rhwydwaith ffermydd y Cyngor a dylent ymrwymo i gynnal yr adnodd hwn o ystyried y rôl hollbwysig y mae'n ei chwarae wrth hwyluso mynediad i'r diwydiant ffermio ar gyfer newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc.

ARGYMHELLIAD

Mae angen ymrwymiad hirdymor, aml-flwyddyn i gyllid sy'n clustnodi, fel lleiafswm, lefelau cyfatebol o gyllid ar gyfer ffermio yng Nghymru i'r rhai a geir ar hyn o bryd, gan hefyd adlewyrchu graddfa'r uchelgais a adlewyrchir yn y polisi a gwasgedd chwyddiant.

Mae angen i fwy gael ei wneud i sicrhau bod y gweithgaredd cyffredinol ddim yn creu anfantais neu rwystri i ffermwyr gael mynediad i'r cynllun, yn enwedig newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc.

MYNEDIAD AT DIR

Mae Cymru'n gartref i gymuned ffermio iau amrywiol a brwdfrydig, un sy'n awyddus i gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel, fforddiadwy, y gellir ei olrhain, ar gyfer poblogaeth fyd-eang sy'n tyfu. Fodd bynnag, mae tir yn gyfyngedig ac mae cael mynediad ato – boed hynny drwy olyniaeth mewn busnesau fferm presennol neu fel newydd-ddyfodiaid – yn parhau i fod yn rhwystr i lwyddiant ac yn un sydd yn dod yn fwyfwy heriol wrth i nifer y defnyddiau tir cystadleuol dyfu.

Un o egwyddorion hirsefydlog NFU Cymru yw y dylid targedu cymorth at y ffermwr gweithredol sydd yn cymryd y risgiau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd. Mae llawer o newydd-ddyfodiaid a newydd-ddyfodiaid ifanc yn ymuno â'r diwydiant drwy'r sector dan denantiaeth. Yng Nghymru mae dros 25% o dir amaethyddol yn cael ei ffermio gan bobl sydd ddim yn berchen ar y tir y maent yn ei ffermio. Amcangyfrifwyd mae hyd cyfartalog tenantiaeth yw 4.48 mlynedd gyda llawer yn sylweddol fyrrach na hynny.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru y dylai CFfC yn y dyfodol fod yn agored ac yn hygyrch i bawb gyda chymorth wedi'i dargedu at y rhai sy'n cyflawni yn erbyn y safonau iechyd anifeiliaid ac amgylcheddol gofynnol. Fodd bynnag, mae'n rhaid gwneud mwy i sicrhau nad yw'r Camau Gweithredu Cyffredinol arfaethedig yn peri anfantais nac yn rhwystr i'r ffermwyr hynny, yn enwedig newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc, nad oes ganddynt sicrwydd deiliadaeth hirdymor, rhag ymuno â'r cynllun. Mae sicrhau mynediad i'r Cynllun ar gyfer y sector dan denantiaeth nid yn unig yn ganolog i hyfywedd y busnesau dan sylw ac ar gyfer cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru, ond hefyd yn galluogi'r Cynllun i gefnogi a hwyluso newydd-ddyfodiaid.

Mae llawer o lwybrau i mewn i ffermio ac mae Cynllun Mentro Cyswllt Ffermio wedi chwarae rhan bwysig yn paru, cefnogi a hwyluso trefniadau rhwng y ffermwyr hynny sydd am gymryd cam yn ôl â'r rhai sydd yn ceisio llwybr mewn i'r diwydiant. Ochr yn ochr â hyn, mae llawer o newydd-ddyfodiaid yn cael eu troed ar ysgol ffermio trwy rwydwaith ffermydd y Cyngor. Fodd bynnag, gydag Awdurdodau Lleol o dan bwysau ariannol, mae maint ystâd ffermydd y cyngor yng Nghymru wedi lleihau a chyda hynny, collwyd cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid a newydd-ddyfodiaid ifanc.

Mae incwm ffermydd yn profi lefelau sylweddol o anwadalwch a ddylanwadir gan amrywiaeth o ffactorau ffisegol, cymdeithasol ac economaidd. Mae mwyafrif y ffactorau hyn yn llwyr tu hwnt i reolaeth y fusnes fferm unigol. Fodd bynnag, mae'r anwadalwch hwn yn pwysu'n drwm ar fusnesau fferm, gan effeithio ar hyder ffermwyr, effeithio proffidioldeb a gwasgu llif arian gyda chanlyniadau ar fuddsoddiad ar y fferm mewn cynhyrchiant, gwelliannau amgylcheddol a'r gymuned wledig ehangach.

ASTUDIAETH ACHOS

BRYN PERRY

Ffermwr llaeth defaid ar fferm cyngor yn Sir Benfro yw Bryn. Mae'n godro 80 o famogiaid ac mae hefyd yn berchennog Ewenique Dairy ac yn sylfaenydd Ewenique Spirits.



Mae pob litr o'n llaeth yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu ein fodca caws neu faidd, rydym hefyd wedi arallgyfeirio ac mae gennym alpacs ar y fferm, gan gynhyrchu sanau o'u cnu. Hoffwn ehangu'r fusnes ymhellach, ond mae'n her i sicrhau mynediad i fwy o dir. Fel ffermwr cenhedlaeth gyntaf, roedd ein tenantiaeth cyngor sir 35 erw yn berffaith ar gyfer cael fy nhroed ar yr ysgol ac mae wedi rhoi'r llwyfan perffaith i ni ddechrau ein gyrfa amaethyddol.

Fi a'm teulu sy'n cymryd y risgiau i gynhyrchu'r bwyd o'r fferm hon. O dan yr CFfC newydd mae angen i mi allu gyflawni'r holl Gamau Gweithredu Cyffredinol arfaethedig sy'n berthnasol i mi a'm fferm heb dorri amodau fy nhenantiaeth.



ARGYMHELLIAD

Dylai'e CFFC ddefnyddio grantiau cyfalaf i gymell a hwyluso datblygiad busnesau fferm gyda chyllid ar gael i ariannu gwelliannau cynhyrchiant ar ffermydd Cymru. Rydym yn argymhell pennu cyfraddau ymyrraeth uwch ar gyfer ffermwyr ifanc.

ARGYMHELLIAD

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gallant alluogi newydd-ddyfodiaid a newydd-ddyfodiaid ifanc i gael mynediad at gyllid yn haws. Er enghraifft, dylid ystyried os oes modd i Llywodraeth Cymru weithredu fel gwarantwr ar gyfer benthyciadau

Mae NFU Cymru yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru fyd-eang. Rydym yn gweld cyfle i dyfu ein hallforion bwyd a diod gan osod uchelgais i dyfu allforion bwyd, diod ac amaethyddol y DU o 30% erbyn 2030. Bydd gwella effeithlonrwydd cynhyrchiol ffermio yn galluogi ffermwyr i gynhyrchu mwy o lai ac mewn ffyrdd craffach.

ARIANNU CYNHYRCHU BWYD YN GYNALIADWY A SERO NET

Mae cael gafael ar gyllid digonol i ddechrau a gweithredu busnes fferm yn rhwystr mawr i'r rhai sydd yn newydd i ffermio. Mae diffyg hanes o fenthycy a/neu asedau i fenthycy yn eu herbyn, yn golygu y gall fod yn anodd sicrhau credyd gan fenthycwyr traddodiadol. Gwneir yr her hon yn fwy difrifol o ystyried bod llawer o newydd-ddyfodiaid ifanc yn dod i'r diwydiant drwy'r sector dan denantiaeth, gan ffermio tir nad ydynt yn berchen arno.

Yn erbyn cefndir o farchnadoedd nwyddau anwadal a chostau uchel ar fewnbynau; mae credyd annigonol yn rhoi pwysau ar lif arian busnes, yn cael effeithiau negyddol ar fuddsoddiad fferm ac yn y pen draw yn cyfyngu ar hyfswedd busnesau. Mae ffermwyr ifanc yn dod â syniadau ac arloesi ffres i'r diwydiant yn aml yn mabwysiadu technoleg newydd yn gynharach. Fodd bynnag, os nad ydynt yn medru gafael ar yr arian sydd yn angenrheidiol i redeg busnesau llwyddiannus a phroffidiol, bydd eu doniau'n cael eu colli, ar draul cynhyrchu bwyd a'n huchelgeisiau sero net.

Mae gan arian grant rôl bwysig i'w chwarae hefyd ac yn aml mae'n galluogi busnesau fferm i fuddsoddi mewn isadeiledd neu dechnoleg sydd yn cynyddu cynhyrchiant, ond heb gymorth ariannol efallai na fyddai yn bosibl. Mae'r math hwn o fuddsoddiad yn sicrhau effeithlonrwydd cynhyrchu ac adnoddau, a fydd yn ei dro yn galluogi'r sector i leihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwneud cyfraniad cadarnhaol at amcanion amgylcheddol a lles anifeiliaid.

Yn hanesyddol mae llawer o gynlluniau grant wedi bod yn anhygyrch i ffermwyr newydd, gyda'r gofynion cymhwyster yn rhy ragysgrifiadol a'r trothwyon ar gyfer y swm â dd disgwylir i'r ymgeisydd ei gyfrannu yn rhy uchel. Yn hyn o beth, mae'n bwysig bod lefelau grant yn cael eu pennu'n ddigon uchel er mwyn annog pobl i fanteisio arnynt, ac o ystyried yr amgylchedd economaidd chwyddiannol gael eu hadolygu'n rheolaidd drwy gydol y cynllun i sicrhau eu bod yn parhau ar lefelau priodol.

ASTUDIAETH ACHOS

SUSIE MOTTERSHEAD

Mae M&S Mottershead yn fferm laeth deuluol drydedd genhedlaeth ar y gororau. Mae'r fferm, sy'n gymysgedd o dir dan berchnogaeth a thir rhent, yn godro 310 o wartheg Holstein pedigri ochr yn ochr â magu tua 50 o anifeiliaid eidion.



Rydym wedi gosod gofal dros y lloi yn gadarn wrth galon ein busnes. Yn ddiweddar rydym wedi adeiladu sied lloi newydd wedi'i theilwra'n gyfan gwbl i anghenion y lloi, mae'n darparu'r amgylchedd perffaith i sicrhau iechyd a glendid ein stoc ifanc. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'n milfeddygon i gasglu data allweddol ar y lloi. O ganlyniad, mae gennym bellach loi cryfach ac iachach sy'n cyrraedd pwysau diddyfnu tua thair wythnos ynghynt. Mae cynnal momentwm i sicrhau bod y fferm yn gynaliadwy ac yn gynhyrchiol ar gyfer y dyfodol yn flaenoriaeth i ni. Mae arian Grantiau o Gymru yn chwarae rhan bwysig yn hyn o beth ac wrth i ni geisio gosod parlwr a chyfleuster llaeth newydd, rydym yn parhau i ddefnyddio, ac wedi gallu defnyddio cyllid grant eisoes i fedru buddsoddi mewn arbedion effeithlonrwydd ychwanegol.

Rydym hefyd yn gweithio ar y cyd â'n milfeddygon a thîm labordy i greu brechlyn niwmonia pwrpasol wedi'i dyfu o olchiadau ysgyfaint lloi. Bydd y brechlyn pwrpasol hwn yn ein galluogi i leihau ein defnydd o wrthfotigau yn sylweddol ar y fferm tra hefyd yn gwella iechyd y fuches yn barhaus.



ARGYMHELLIAD

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu Rhaglen Cyswllt Ffermio, ar y cyd â'r sefydliadau ffermio, i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer cenhedlaeth ffermwyr ein dyfodol.

ARGYMHELLIAD

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyllid a chyfleoedd i'r Gymru wledig gael mynediad cyfartal at ddarpariaeth addysg GTPM o ansawdd uchel, gan sicrhau'r sgiliau y bydd eu hangen ar ffermwyr y dyfodol. Yn hyn, mae'n hanfodol bod ffermio yng Nghymru yn cael ei portreadu yn gywir ar draws y cwrwllwm i sicrhau nad yw camsyniadau am amaethyddiaeth yn cael eu ffurfio a bod angerdd am Gymru gynhyrchol, gynaliadwy yn cael ei danio o oedran cynnar.

ARGYMHELLIAD

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer cynnyrch cartref yn y sector gyhoeddus. Dylent ddatblygu llwybrau newydd ar gyfer cyflenwyr lleol a busnesau bach a chanolog, a dylent wneud ymrwymiad cadarn y bydd unrhyw fwyd a brynir o'r tu hwnt i Gymru dim ond yn dod o gyflenwyr sy'n gallu gwarantu bod eu safonau'n cyd-fynd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol neu'n rhagori arnynt.

ADDYSGU FFERMWYR PRESENNOL A FFERMWYR Y DYFODOL

Pobl yw ased allweddol unrhyw fusnes ac mae buddsoddi ynddynt yn rhan hanfodol o gyrraedd ein gweledigaeth o ddiwydiant ffermio cynhyrchol, blaengar a phroffidiol yng Nghymru.

Yn ychwanegol i addysg ffurfiol, mae llawer o ffermwyr yng Nghymru yn cymryd rhan weithredol mewn DPP ac yn cymryd rhan yn Rhaglen hyfforddiant ffurfiol Cyswllt Ffermio Llywodraeth Cymru, cyfnewid gwybodaeth a gwasanaethau cynghori ochr yn ochr â gweithgarwch datblygu diwydiant a ddarperir gan y cyrff ardoll.

Mae cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y CFfC yn rhoi pwyslais mawr ar rôl canllawiau yng nghynllun y dyfodol. Mae NFU Cymru yn credu'n gryf na ddylai Llywodraeth Cymru eirioli dros ddarparu cyngor ac arweiniad i wneud iawn am gynllun cynllun sydd yn or-gymhleth, yn enwedig yn yr haen Gyffredinol. Er bod marc cwestiwn ynghylch â'r radd y mae cyngor ac arweiniad yn cyfranni o ran sicrhau hyfywedd fferm, mae yna fudd cynhyrchiant sydd yn deillio o raglen gyfnewid cyngor a gwybodaeth gyda chymhelliant. Mae rôl amlwg i Cyswllt Ffermio a'r cyrff ardoll i'w chwarae wrth gyflawni hyn, felly mae'n hanfodol bod rhaglenni'n gost-effeithiol, yn rhoi gwerth am arian, yn cael eu harwain gan y diwydiant ac yn gweithredu lle mae gwir fethiant y farchnad yn bodoli.

Mae NFU Cymru yn frwd dros weithio gydag ysgolion a darparwyr addysg bellach i sicrhau bod ffermio yn cael ei weld yn opsiwn gyrfa dichonadwy, a bod plant yn cael cyfle i brofi o ble mae eu bwyd yn dod.

Mae ein Grŵp Cenhedlaeth Nesaf NFU Cymru yn brawf nad yw un maint yn addas i bawb ac nad oes yna lwybr penodol mewn i ffermio. Mae Cymru yn gartref i sector ffermio amrywiol ac mae yna lu o gyfleoedd gyrfa yn bodoli oddi-fewn i amaeth a'n cymunedau gwledig. Mae ein cenhedlaeth nesaf o ffermwyr yn llysgenhadon i'n diwydiant a gallant ysbrydoli eraill gyda'u hanesion o ffermio.

Mae ein rhaglen Ffermwyr i Ysgolion wedi hyfforddi dros 150 o lysgenhadon ffermio ledled Cymru a Lloegr, maent yn siarad â phobl ifanc yn eu harddegau mewn ysgolion uwchradd am y bobl sy'n cynhyrchu eu bwyd a gwirionedd a chyfleoedd gyrfa ffermio modern yn y DU.

Rydym hefyd yn credu ei fod yn bwysig integreiddio dysgu am fwyd nid yn unig drwy'r cwrwllwm ond hefyd drwy amseroedd bwyd yn yr ysgol. Credwn fod cyfleoedd i edrych o'r newydd ar gaffael yn y sector gyhoeddus, i roi'r cyfle i blant yng Nghymru ac yn fwy cyffredinol i'r cyhoedd fwyta bwyd iach sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd ac a gynhyrchir gan ffermwyr a busnesau Cymru.

Mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd difrifol, mae polisïau caffael y sector gyhoeddus yn creu cyfle i ddefnyddio gwariant cyhoeddus i fuddsoddi yn yr economi, yr amgylchedd, a'r cymunedau sy'n cynhyrchu bwyd y genedl.

ASTUDIAETH ACHOS

ERNIE RICHARDS

Ar hyn o bryd mae Ernie yn gweithio fel bugail cenhedlaeth gyntaf ger Cleirwy, yn rheoli diadell o 1,000 o famogiaid Llŷn Pedigri.



Rydym yn rhoi ffocws mawr ar iechyd a pherfformiad y ddiadell. Rwyf wedi bod yn ymwneud â rhaglen Stoc+ HCC, yn dadansoddi iechyd ein diadelloedd. Rwy'n rhan o grŵp trafod defaid gyda Cyswllt Ffermio ac roeddwn yn rhan o brosiect Ansawdd Cig HCC lle buom yn cynnal treial perfformiad cig oen gyda'r nod o wella cynhyrchiant ein diadell. Rwyf wedi manteisio ar y cyfle i ymgymryd â nifer o gyrsiau hyfforddi Cyswllt Ffermio gan gynnwys yr Academi Amaeth ac roeddwn yn falch o ennill Gwobr Dysgwr Ifanc y Flwyddyn Cyswllt Ffermio yn 2021.

Rwyf hefyd yn frwd dros ledaenu neges ffermio ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Rwy'n rhan o'r Cynllun Amser Ffermwr, a sefydlwyd gan LEAF, a thrwy hyn yn cael cyswllt rheolaidd gyda grŵp o ddisgyblion ysgol gan ddangos iddynt bob agwedd o fywyd ffermio. Rwyf hefyd yn darparu hyfforddiant ar Ddiogelwch Fferm i glybiau ffermwyr ifanc lleol ac yn Llysgennad Ffermio yr NFU hyfforddedig i Ysgolion.



DIOGELU DYFODOL ARDALOEDD GWLEDIG

Ffermio yw sylfaen cymunedau gwledig. Mae'n gynhenid i wead cymdeithasol Cymru, gan ddarparu cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae ffermio yn darparu cadarnle i'r iaith Gymraeg ac yn sicrhau defnydd parhaus o ystod eang o sgiliau traddodiadol sy'n ganolog i'n diwylliant a'n treftadaeth. Mae ffermwyr hefyd yn chwarae rhan hollbwysig wrth warchod adnoddau genetig bridiau da byw Brodorol Cymru. Mae hyn oll yn rhoi 'ymdeimlad o le' unigryw i dirwedd Cymru.

Mae ffermwyr Cymru yn gwneud cyfraniad allweddol at ddarparu cymunedau deniadol, hyfyw a diogel mewn ardaloedd gwledig. Yn ôl eu hunion natur, mae cymunedau gwledig Cymru yn fach neu mewn lleoliadau anghysbell. Yn aml, ffermwyr a'u teuluoedd, trwy grwpiau cymunedol, cynghorau plwyf, Clybiau Ffermwyr Ifanc Lleol a grwpiau gwirfoddol, sydd wrth wraidd cefnogi, cynnal a hwyluso llawer o agweddau ar fywyd cymunedol yn ein hardaloedd gwledig.

Mae hefyd angen mesurau diogelu i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol i gymunedau gwledig. Mae pwysau lluosog a chynyddol ar ddefnydd tir yng Nghymru, ac mae gan lawer ohonynt botensial i leihau cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol gael mynediad at ffermio. Rhaid i'r CFFC a pholisïau ehangach y llywodraeth beidio â bod yn sbardun ar gyfer newid defnydd tir eang i goedwigaeth neu ddulliau anymyrriaethol megis ail-wylltio a fydd yn arwain at ddadleoli pobl ifanc a chymunedau. Yn y cyd-destun hwn, mae NFU Cymru wedi galw ers tro am fframwaith benderfyniadol er mwyn arwain penderfyniadau newid defnydd tir er mwyn asesu'r effeithiau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol hirdymor yn briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen i ddarparu sefydlogrwydd a bydd y Camau Cyffredinol arfaethedig yn cael eu cyflawni gan bob ffermwr sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn gyfnewid am daliad sylfaenol blynyddol. Credwn fod yn rhaid i'r Camau Gweithredu Cyffredinol

fod yn gyraeddadwy ar bob fferm yng Nghymru, beth bynnag fo'r math o ffermio, deiliadaeth, system a lleoliad.

Yng nghyd-destun darparu sefydlogrwydd, mae'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr yng Nghymru hefyd angen cyfnod pontio sefydlog wedi'i gynllunio'n dda o'r PAC i bolisi amaethyddiaeth newydd i Gymru. Heb hyn, mae perygl y bydd buddsoddiad yn cael ei danseilio, cynlluniau olyniaeth yn cael eu mygu a phobl ifanc yn chwilio am lwybrau gyrfa eraill mwy diogel.

Rhaid i'r system gynllunio hefyd alluogi adeiladu tai newydd yn gartrefi ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr yn eu cymunedau gwledig. Mae llawer o ffermwyr hefyd yn dewis arallgyfeirio eu prif weithgareddau amaethyddol i wneud y fusnes yn fwy gwydn, er enghraifft gweithredu busnesau twristiaeth neu siopau fferm. Felly, ochr yn ochr â thai gwledig rhaid i'r system gynllunio hefyd alluogi'r cyfleoedd arallgyfeirio ehangach hyn sy'n helpu cefnogi cymuned wledig ffyniannus.

ARGYMHELLIAD

icrhau bod y Camau Gweithredu Cyffredinol yn hygyrch ac yn gyraeddadwy, waeth beth fo'r math o fferm, deiliadaeth, system neu leoliad. Bydd y sefydlogrwydd hwn yn sail i wydnwch ein ffermydd teuluol a, thrwy wneud hynny, yn cynnal ein cymunedau gwledig, iaith, diwylliant a threftadaeth.

ARGYMHELLIAD

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i drosglwyddo'n ddidrafferth i gynlluniau newydd gydag o leiaf yr un lefel o sefydlogrwydd â'r hyn a ddarperir gan y PAC i fusnesau fferm drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

ASTUDIAETH ACHOS


JESSICA WILLIAMS

Mae Jessica yn ffermio mewn partneriaeth â'i gŵr yn cadw buches o wartheg sugno Duon Cymreig ynghyd â diadell o Ddefaid Llŷn Pedigri a mamogiaid croesfrid a defaid Mynydd Cymreig.



Fe dechreuom ni werthu bocsys cig yn 2021 oherwydd ein bod ni eisiau rhoi cyfle i bobl brynu cig o fridiau brodorol sy'n cael eu geni, eu magu a'u lladd yn lleol. Ein nod yw cadw milltiroedd bwyd mor isel â phosib a defnyddio cynhyrchion cynaliadwy fel gwlân i ynysu'r bocsys cig. Rydym hefyd wedi dod â chychod gwenyn i'r fferm yn ddiweddar ac yn gwerthu'r mêl a gynhyrchir ar ein fferm yn lleol.

Rydym yn frwd dros warchod ein bridiau brodorol yma yn Nolaugwyn, ac mae ein stoc magu a deunydd genetig o'n fferm yn cael ei allforio i bedwar ban byd. Rydym yn frwd dros ddarparu dyfodol i'n teulu yng nghefn gwlad Cymru.





Mae'n rhaid i'r CFfC gael ei ddylunio ar gyfer pob ffermwr, beth bynnag fo'i ddeiliadaeth tir. Dylai hwn fod yn gynnis blynyddol yn seiliedig ar gyflawni camau gweithredu wedi'u targedu at y ffermwr gweithredol a'i gefnogi. Mae'n rhaid i ffermwyr tenant allu ymuno â'r cynllun ar sail gyfartal â'u cymheiriaid sy'n berchenfeddianwyr, beth bynnag fo'u math o denantiaeth a hyd eu tenantiaeth.



Dylai Llywodraeth Cymru wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer cynnyrch cartref yn y sector gyhoeddus. Dylent ddatblygu llwybrau newydd ar gyfer cyflenwyr lleol a busnesau bach a chanolig, a dylent wneud ymrwymiad cadarn y bydd unrhyw fwyd a brynir o'r tu hwnt i Gymru dim ond yn dod o gyflenwyr sy'n gallu gwarantu bod eu safonau'n cyd-fynd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol neu'n rhagori arnynt.



Dylai'r CFfC ddefnyddio grantiau cyfalaf i gymhell a hwyluso datblygiad busnesau fferm gyda chyllid ar gael i ariannu gwelliannau cynhyrchiant ar ffermydd Cymru. Rydym yn argymhell pennu cyfraddau ymyrraeth uwch ar gyfer ffermwyr ifanc.



Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gallant alluogi newydd-ddyfodiaid a newydd-ddyfodiaid ifanc i gael mynediad at gyllid yn haws. Er enghraifft, dylid ystyried os oes modd i Llywodraeth Cymru weithredu fel gwarantwr ar gyfer benthychiadau



Dylai Llywodraeth Cymru adolygu Rhaglen Cyswllt Ffermio, ar y cyd â'r sefydliadau ffermio, i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer cenedlaeth ffermwyr ein dyfodol.



Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i drosglwyddo'n ddidrafferth i gynlluniau newydd gydag o leiaf yr un lefel o sefydlogrwydd â'r hyn a ddarperir gan y PAC i fusnesau fferm drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

10

modd

**y deg modd y gall
Llywodraeth Cymru
gefnogi'r genhedlaeth
nesaf o ffermwyr
yng Nghymru**



Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gydnabod pwysigrwydd rhwydwaith ffermydd y Cyngor a dylent ymrwymo i gynnal yr adnodd hwn o ystyried y rôl hollbwysig y mae'n ei chwarae wrth hwyluso mynediad i'r diwydiant ffermio ar gyfer newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc.



Sicrhau bod y Camau Gweithredu Cyffredinol yn hygyrch ac yn gyraeddadwy, waeth beth fo'r math o fferm, deiliadaeth, system neu leoliad. Bydd y sefydlogrwydd hwn yn sail i wydnwch ein ffermydd teuluol a, thrwy wneud hynny, yn cynnal ein cymunedau gwledig, iaith, diwylliant a threftadaeth.



Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyllid a chyfleoedd i'r Gymru wledig gael mynediad cyfartal at ddarpariaeth addysg GTPM o ansawdd uchel, gan sicrhau'r sgiliau y bydd eu hangen ar ffermwyr y dyfodol. Yn hyn, mae'n hanfodol bod ffermio yng Nghymru yn cael ei portreadu yn gywir ar draws y cwricwlwm i sicrhau nad yw camsyniadau am amaethyddiaeth yn cael eu ffurfio a bod angerdd am Gymru gynhyrchiol, gynaliadwy yn cael ei danio o oedran cynnar.



Mae angen ymrwymiad hirdymor, aml-flwyddyn i gyllid sy'n clustnodi, fel lleiafswm, lefelau cyfatebol o gyllid ar gyfer ffermio yng Nghymru i'r rhai a geir ar hyn o bryd, gan hefyd adlewyrchu graddfa'r uchelgais a adlewyrchir yn y polisi a gwasgedd chwyddiant.